Cyflwyniad Cristnogaeth 21: Eisteddfod y Garreg Las 2026

Diolch am y gwahoddiad i rannu peth o hanes Bethlehem Newydd a ddechreuodd sawl blwyddyn yn ôl bellach.

A bu hynny'n brofiad digon anodd i aelodau dau gapel yn yr ofalaeth sef **Capel Mair** Sanclêr ac **Elim Llanddowror** wrth benderfynu cau'r ddau gapel. Mewn cyrddau eglwys penderfynwyd uno'r ddau ynghyd â Bethlehem a sefydlu **Bethlehem Newydd** a thystio i hynny gan ymddiriedolwyr y capel newydd.

Bu'n ddigon heriol i werthu'r adeiladau – er enghraifft roedd angen adeiladu pont dros nant fechan i sicrhau mynediad i'r fynwent yn Elim a symud rhai cerrig beddau a gwerthiant y naill a'r llall yn cwympo drwodd dro ar ôl tro. Mae Bethlehem Newydd wedi ymrwymo i gynnal a chadw'r fynwent honno.

Nid oedd y bwriad i addasu'r capel yn plesio rhai ond eraill yn gyffrous ac yn barod am yr her. Roedd yr hen ysgoldy i fyny grisiau eithaf serth uwchben dau fwthyn ac nid yn addas i lawer ohonom bellach. Erbyn hyn dw i ddim yn credu bod fawr neb am edrych yn ôl.

Bu cyfnod hir o geisio am ganiatâd cynllunio gan fod yr adeilad wedi'i gofrestru ac angen cael Datganiad Treftadaeth sy'n ddogfen swmpus a phenodi pensaer.

Yn haf 2021 daeth cyfle i ymgeisio am grant **Buddsoddi ac Arloesi** Undeb yr Annibynwyr a'n galluogodd i benodi swyddog cymunedol am gyfnod o bum mlynedd sydd wedi dirwyn i ben haf eleni.

Buom yn eithriadol o ffodus ym mhenodiad **Annalyn Davies** ac fe ddechreuodd gysylltu â rhai elusennau lleol a sefydlu **Tŷ Croeso** fel brand a logo ar gyfer adain elusennol y capel. Roedd y ffaith ei bod yn gynghorydd tref ac wedyn yn faer Sanclêr o gryn fantais.

Cyn dechrau ar y gwaith adeiladu trefnodd ddiwrnod agored – i ddathlu'r gorffennol y ddoe - ac i rannu gwybodaeth am y cyswllt a wnaed eisoes ag elusennau – sef yr heddiw - ac i rannu cynlluniau'r pensaer ar gyfer yr yfory. Daeth llawer o'r gymuned yn ogystal ag aelodau i fwynhau'r sgons a hufen a mefus hefyd.

Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ym mis Medi 2023 a llwyddwyd i gynnal oedfaon bob Sul mewn lleoliadau amrywiol yn ardal Sanclêr nes i'r capel ail agor y mis Mai canlynol.

A dyma ddechrau tynnu'r corau, codi'r llawr pridd a'r set fawr – a oedd wedi dechrau pydru yn ddiarwybod i'r saint - a chyn hynny codwyd pob un o'r blociau pren ar y llawr, tynnu'r tar oddi tanynt – 5,000 ohonynt – yna arllwys sment a gosod system gwresogi o dan y llawr cyn ailosod y llawr pren. Mae gennym ddiacon sy'n saer a fu ar ei liniau am rai wythnosau! Fel y gwelwch o'r llun gosodwyd yr hen gorau o amgylch y gofod a rheiddiaduron newydd. A'r gwaith tu fas o osod ffenestri newydd cyn plastro a pheintio.

Mae'r adeilad bellach yn gwbl hygyrch, wedi'i wresogi'n barhaus ym misoedd y gaeaf; mae'r festri yn gegin bwrpasol gyda ffwrn, peiriant golchi llestri ac ati a chyfleusterau i'r anabl.

Cawsom gyfraniad sylweddol gan **Ymddiriedolaeth Pantyfedwen** i brynu'r cadeiriau a pheth cymorth o grant y Cyngor Sir i eglwysi a chapeli at brynu organ newydd. Mae'r hen un yno o hyd ond roedd wedi dod i ddiwedd ei hoes.

Buom yn ffodus yn ein cais am grant arall trwy'r Cyngor Sir o dros £40,000 i'n cynorthwyo i'w ddodrefnu ymhellach – y byrddau bistro, y carpedi, bleinds a chael offer i'r gegin, ac offer a chamerâu diogelwch.

Fe ddatblygodd y gwaith elusennol a'r gweithgaredd cymunedol dan faner Tŷ Croeso. Y gweithgaredd canolog oedd sefydlu bore **Croeso Cynnes** sydd wedi parhau yn ddi-dor bob wythnos– ac mae 40+ yn mynychu'n rheolaidd. Dros y ddwy flynedd diwethaf cawsom grant y Cyngor Sir ar gyfer Mannau Cynnes sy'n cyfrannu rhywfaint at y gost o ddarparu paned a thost/ bisgedi. Dibynnwn ar wirfoddolwyr ar rota – rhai yn aelodau o'r capel a nifer o'r gymuned.

Roedd Annalyn yn gwybod bod **Sied y Dynion** yn chwilio am rywle i gwrdd a daw hwythau'n wythnosol ar foreau dydd Iau – nifer ohonynt yn dod bob bore Mawrth hefyd. Maent wedi ein helpu gydag ambell beth fel peintio'r reilins a thacluso tu fas. Hwy drefnodd ein bore coffi Macmillan cyntaf ers sefydlu Tŷ Croeso – maent yn gogyddion arbennig! Rydym yn cynnal un yn flynyddol ac yn codi ymhell dros £900 y ddwy flynedd diwethaf gyda chefnogaeth y gymuned eto.

Cysylltodd un aelod – Janet - â'r **Fenter Iaith** er mwyn cynnal sesiynau **Stori a Chân** i blant ifanc a digwydd hynny bob pythefnos bellach a sesiynau i blant hŷn yn ystod gwyliau a gall hynny gynnwys chwarae anniben!

Mae nifer ohonom yn y capel yn aelodau o **Ferched y Wawr** sydd hefyd yn cwrdd yn y capel ac fe drefnon ni Sioe ffasiynau a chodi £1500 ym mis Ebrill eleni i apêl y Llywydd at Ymchwil Cancr Cymru

Mae **Sefydliad y Merched** hefyd yn cwrdd yma a hwythau wedi cydlynu bore coffi MacMillan y llynedd. Mae un o'u haelodau yn cynnal prynhawn crefft bob prynhawn dydd Mercher – cynhalion nhw fore coffi a chodi £1000 ym mis Mai – i'r J C Trust – sy'n cefnogi rhai yn derbyn triniaeth at gancr - ac wrth gwrs mae aelodau'r capel yn cynorthwyo ym mhob un o'r digwyddiadau hyn – ac yn eu cefnogi.

Mae ambell fudiad arall yn llogi'r capel o bryd i'w gilydd fel y **Ffermwyr ifanc**, ambell gôr ac ambell ddosbarth ffitrwydd a ioga cadair bob bore Gwener.

Cysylltodd rheolydd y **Lloches i wragedd** yng Nghaerfyrddin ag Annalyn o'r dechrau a bellach byddwn yn eu cefnogi'n rheolaidd – siocledi Nadolig, wyau a siocledi Pasg ac o bryd i'w gilydd daw cais i gasglu nwyddau golchi ac ymolchi a thrwy Facebook a chefnogaeth siop enwog Pethau Olyv yn Sanclêr fe wnawn gasgliadau iddynt yn ôl y galw – daeth cais yn y gwanwyn am ddillad gwely a'r casgliad eto yn gwbl ryfeddol – yn ddillad gwelyau newydd a thros £200 mewn arian.

Clywodd Annalyn fod **Plant Dewi** wedi colli eu lleoliad ym Mhenfro i storio nwyddau i fabanod megis cots/ prams ayyb a gyda'r ysgoldy yn wag bellach maent yn ei ddefnyddio fel stordy. Llwyddai Annalyn i gysylltu'n eang i wneud casgliadau rheolaidd iddyn nhw.

Cynhelir casgliadau dillad i **Coda Ni** bob hyn a hyn– ac mae hwythau bellach yn didoli dillad plant ifanc ac yn dod â nhw atom i'w trosglwyddo i Blant Dewi – sydd wedi elwa'n fawr o'r cysylltiad hwnnw. Mae grŵp crefft yn cwrdd bob prynhawn dydd Mercher a rhai yn gwneud cwiltiau a chyfeillion o Faenclochog yn eu cyfrannu'n rheolaidd hefyd.

Buon yn **cefnogi'r digartref** yng Nghaerfyrddin hefyd y llynedd – a llwyddo i brynu sawl pecyn argyfwng.

Fe gefnogwn y banc bwyd yn Hendy Gwyn yn rheolaidd a dechreuon ni drefn o gyfrannu nwyddau yn hytrach na chael casgliad ar fore Sul. Cyfrannwn weithiau at **fanc bwyd Caerfyrddin** hefyd – yn enwedig eu hapêl y llynedd am ddillad cynnes.

Ry'n ni'n awyddus i fod yn **ganolfan Gymraeg** – ac yn trefnu **cyngherddau** – dyma'r cyntaf gyda Cleif Harpwood a Geraint Cynan – a'r rheini'n fodd i gyfrannu at elusennau hefyd - fel yr Eisteddfod hon gyda chyngerdd Sian James hydref y llynedd. Trefnwyd ambell bnawn Sadwrn adeg Gŵyl Dewi a chanu carolau Nadolig.

Daeth **Talwrn y Beirdd** yma fis Mawrth.

Mae clwb darllen Cymraeg yn cwrdd yn fisol.

Cawsom gyngerdd dechrau Mehefin gyda Chôr Hendy Gwyn a'r cylch a chodi £800 i Gymorth Cristnogol a chodwyd £650 at **ymchwil Alzheimer's** yn ein **swper Gŵyl Dewi** yng nghwmni Bois y Frenni.

Rwy'n credu i ni godi oddeutu £4,000 tuag at elusennau rhwng mis Mawrth a dechrau Gorffennaf eleni ac na fyddai hynny'n bosibl heb gefnogaeth y mudiadau sy'n cwrdd yn y capel,

Cynhelir **dosbarth Cymraeg** wythnosol yn y capel a ddechreuodd Ionawr eleni ac i barhau yn yr hydref. Mae'r gofod yn ddelfrydol gyda'r sgriniau teledu.

Mae **gwefan** gan y capel bellach sy'n cynnwys neges wythnosol, newyddion misol a sgriptiau gwasanaethau ac mae tua 40 yno erbyn hyn ac ar gael i'w rhannu ac i ninnau eu hail ddefnyddio pe bai angen.

Ydy, mae'r capel bellach â rôl bwysig yn y gymuned - mae bws **Dolen Teifi** wedi'i barcio yn ein maes parcio a gwirfoddolwyr gennym yn ei yrru – i fynd â rhai i apwyntiad ysbyty er enghraifft.

Mae pum mlynedd y grant wedi dod i ben a gwaddol yr hyn a ddechreuodd Annalyn i barhau a byddwn yn ddiolchgar iddi hi ac i'r Undeb am eu gweledigaeth a rhoi i ni'r ysgogiad i ddyfalbarhau.

Mae **Pwyllgor Rheoli** o 6 wedi bod gennym o'r cychwyn a hwy sy'n agor a chau ar rota ar gyfer y digwyddiadau i gyd ac yn trefnu hynny trwy Whatsapp. Fe dalwn i gwmni i lanhau'r capel.

Mae'r holl weithgaredd wedi ennyn balchder yn ein haelodau ac mae trefn ein hoedfaon yn esblygu hefyd – gan gofio'n barhaus mai lle o addoliad yw'r capel yn bennaf.

Yr aelodau fydd yn arwain o leiaf un gwasanaeth y mis, weithiau mwy. Mae hyder rhai i gymryd rhan wedi datblygu'n fawr – rhai nad oeddynt yn fodlon gwneud mwy na chyhoeddi emyn nawr yn darllen yn gwbl hyderus.

Dylwn hefyd ddweud ein bod yn elwa o gefnogaeth aelodau capel **Gibeon yn** ein hoedfaon a ninnau'n mynychu oedfa yno unwaith y mis. Cawsom wasanaeth awyr agored y Sul diwethaf, wac i gopa bryngaer o Oes yr Haearn a phicnic yn dilyn a chynhelir ysgol Sul yno.

Nawr rydym yn dechrau ar fenter newydd – trwy grant Cefnogi Cyfle yr Undeb am dair blynedd – a hynny i ddatblygu'r defnydd o dechnoleg – i hyrwyddo ein cenhadaeth – defnyddio'r camera sydd gennym i recordio gwasanaethau, hyfforddi mwy i ddefnyddio'r offer – y sgriniau a llunio pwerbwyntiau.

Ac er bod y rhan fwyaf ohonom yn dioddef o technoffobia – mae pawb yn barod i fentro! Ein gobaith yw y bydd ein swyddog technoleg yn medru hwyluso'r trefnu, yn hyfforddi defnydd y capel o dechnoleg i hyrwyddo ein haddoliad a'i rannu ag eraill ond hefyd i ddarparu hyfforddiant ar ddiogelwch ar y we ac ati i'r grwpiau cymunedol sy'n defnyddio'r adeilad.

Ry'n ni wedi bod yn **trefnu hyfforddiant** i'r gymuned a'r capel bob hyn a hyn ar agweddau megis hylendid bwyd, achub bywyd, asesiad risg, a defnydd o'r diffibliwr sydd gennym ac felly byddwn yn parhau â'r rôl honno gan ganolbwyntio ar dechnoleg.

Ydy mae'r capel ar agor bron bob dydd o'r wythnos ond yn ei hanfod addoldy a chanolfan i'r Gymraeg yw'r capel sy'n agored i'r gymuned a minnau yma heddiw fel aelod o'r pwyllgor rheoli yn cynrychioli cynulleidfa, diaconiaid ac ymddiriedolwyr Bethlehem Newydd.

Hwyrach ein bod yn gwneud rhai pethau'n wahanol ond nid yw hynny gyfystyr â dweud ein bod yn gwneud mwy na llawer i gapel arall ac rydym yn ddyledus iawn i Undeb yr Annibynwyr am eu cefnogaeth ar hyd y daith.

Gobeithio cewch gyfle i ymweld â'n gwefan ar ôl mynd adre– a diolch am wrando.